

GRIFFITH, ELIZABETH (1727 - 1793), awdures

Enw: Elizabeth Griffith
Dyddiad geni: 1727
Dyddiad marw: 1793
Priod: Richard Griffith
Plentyn: Catherine Griffith
Plentyn: Richard Griffith
Rhiant: Thomas Griffith
Rhiant: Jane Griffith (née Foxcroft)
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: awdures
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio; Barddoniaeth
Awdur: Gwyn Jones

Ganwyd yn sir Forgannwg ar 11 Hydref, 1727. Ychydig a wyddys amdani cyn ei phriodas â Richard Griffith, Gwyddel, c. 1752. O hynny ymlaen bu'n actio mewn dramâu yn Dulyn a Llundain. Yn 1757 cyhoeddodd *A Series of Genuine Letters between Henry and Frances*, gwaith a oedd ar yr un pryd yn nofel ac yn ddetholiad mewn dwy gyfrol o'i llythyrau hi a'i gŵr at ei gilydd cyn eu priodas. Ysgrifennodd lawer o ddramau ar ôl 1765 - o'r rhain *The School for Rakes*, 1769, oedd y mwyaf effeithiol. Ysgrifennodd beth barddoniaeth, cyfieithodd lawer o'r iaith Ffrangeg, ac ysgrifennodd nofelau eraill; yn 1775 cyhoeddodd *The Morality of Shakespeare's Drama Illustrated*. Enwau ei phlant oedd Richard (1752 - 1820) a Catherine. Bu farw 5 Ionawr 1793 yn Iwerddon.

Awdur

Yr Athro Gwyn Jones, (1907 - 1999)

Ffynonellau

D. E. Baker, *Biographia Dramatica* (London 1812), i, 301

Oxford Dictionary of National Biography

The Cambridge history of English literature (1908-1927)

Darllen Pellach

J. M. S. Tompkins, *The polite marriage: also The Didactic Lyre, The Bristol Milkwoman, The Scotch Parents, Clío in Motley and Mary Hays, Philosophess* (Cambridge 1938)

Erthygl Wicipedia: [Elizabeth Griffith](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 36955786

Wikidata: [Q1331217](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, G., (1953). GRIFFITH, ELIZABETH (1727 - 1793), awdures. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-ELI-1720>

CC0

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government